**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 3 Hydref 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C E Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| W Evans | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| A S Lewis | J A Raynor | M Thomas |

**Hefyd yn bresennol:** J E Burtonshaw

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Chris Dale | Arweinydd Tîm Mynediad i Gefn Gwlad (Hawliau Tramwy) |
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr |
| Katy Freer | Swyddog Arddangosfeydd |
| Donna Houlston | Prif Swyddog dros Sefydlogrwydd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Paul Relf | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Nicola Trotman | Cydlynydd Rhaglen Bae'r Gorllewin |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, M Sherwood a/ac R C Stewart

---

## 63 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 64 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 1 Awst 2018 fel cofnod cywir.

## 65 Cais Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru ar gyfer Hwb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Amlddisgyblaethol, Integredig.

Rhoddodd y Rheolwr Partneriaeth a Chomisiynu gyflwyniad i gymeradwyo'r mynegiant o ddiddordeb i wneud cais am gyllid i gronfa 'Buddsoddi i Arbed' Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Hwb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig.

**Penderfynwyd** y dylai'r Panel Ariannu Allanol gymeradwyo cais yr Hwb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

## 66 Cais Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Canfod Teuluoedd.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ynghyd â'r Prif Swyddog - Sefydlogrwydd adroddiad i gymeradwyo'r mynegiant o ddiddordeb i wneud cais am gyllid i gronfa 'Buddsoddi i Arbed' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Prosiect Canfod Teuluoedd.

**Penderfynwyd** y dylai'r Panel Ariannu Allanol gymeradwyo'r cais i'r gronfa 'Buddsoddi i Arbed' ar gyfer y prosiect Canfod Teuluoedd.

## 67 Y Gronfa Gofal Integredig: Cyllid Dementia 2018/19.

Cyflwynodd Cydlynydd Rhaglen Bae'r Gorllewin adroddiad i roi gwybod i'r panel am gyllid refeniw  y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer gwasanaethau a phrosiectau dementia yn unol â'r Cynllun Gweithredu Dementia Cenedlaethol ar draws rhanbarth Bae'r Gorllewin ar gyfer 2018/19.

Nododd Cydlynydd Rhaglen Bae'r Gorllewin fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r 6 chynllun a amlinellwyd yn Atodiad 1 sy'n berthnasol i ardal Abertawe ers i'r adroddiad gael ei ddrafftio.  Yn ogystal, cymeradwywyd 8 cynllun ychwanegol hefyd.

**Penderfynwyd** y dylai'r Panel Ariannu Allanol gymeradwyo derbyn cyllid gan y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer gwasanaethau dementia yn Abertawe.

## 68 Rhaglen Ddysgu 3 Blynedd Arfaethedig - Oriel Gelf Glynn Vivian - Drafftio'r Dyfodol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno cais i gronfa Casgliadau Esmee Fairbairn/Cymdeithas Amgueddfeydd Llundain ar gyfer arian grant 100% am Raglen Ddysgu ran-amser 3 blynedd o hyd i ddod â chasgliad 'cudd' Gwaith ar Bapur yr oriel i'r amlwg drwy gysylltu â chyfranogwyr o gefndiroedd economaidd isel a difreintiedig yn Abertawe - o'r enw *Drafftio'r Dyfodol*.

**Penderfynwyd** y dylai'r Panel Ariannu Allanol nodi'r goblygiadau  yn yr adroddiad a chymeradwyo'r cais i ddenu hyd at £80,200 o gyllid ychwanegol heb unrhyw gost i'r cyngor.

## 69 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 70 Trosolwg o'r ceisiadau presennol a'r rhai sydd ar ddod am arian Ewropeaidd ac allanol.

Darparodd y Rheolwr Cyllid Allanol a'r Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol ddiweddariadau ar geisiadau am gyllid cynlluniedig Ewropeaidd ac Allanol eraill.

Diolchwyd i'r Tîm Cyllid Allanol am ei ymdrechion parhaus wrth geisio dod o hyd i'r arian grant addas ar gyfer prosiectau amrywiol yn yr awdurdod.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r 4 argymhelliad fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.52 pm

**Cadeirydd**